

# ADFERIAD AR SAIL CYDRADDOLDEB

Mae gan **UNSAIN Cymru** dri maes allweddol y credwn y dylid eu blaenoriaethu yn ystod tymor nesaf y Senedd. Mae adferiad ar sail cydraddoldeb yn un o'r meysydd hyn.

Rydym yn galw ar ymgeiswyr i fod yn Aelodau Senedd Cymru (ASC) i ymrwymo i adferiad ar sail cydraddoldeb.

## Gwreiddio cydraddoldeb wrth ail-adeiladu

Mae'r pandemig COVID wedi dwysáu'r anghydraddoldebau a oedd eisoes yn bodoli ar draws ein cymdeithas.

Mae pandemig COVID19 wedi effeithio'n anghymesur ar fenywod, pobl groenddu, gweithwyr ifanc, pobl ag anableddau dysgu, pobl ag anableddau corfforol, plant sy'n byw mewn tlodi a phobl sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig.

Ond rydyn ni'n glir, nid hon yw'r gymdeithas rydyn ni ei heisiau ar gyfer y dyfodol, ac felly mae'n rhaid i ni wneud ymrwymiad i adferiad ar sail cydraddoldeb sy'n sicrhau nad oes neb yn cael ei adael ar ôl.

## Beth yw ystyr 'adferiad ar sail cydraddoldeb'?

Mae arnom angen cymdeithas sy'n rhoi pobl yn gyntaf; sy'n talu ei gweithwyr yn ôl eu gwerth; gwasanaethau cyhoeddus wedi'u hariannu'n ddigonol; tai cymdeithasol o ansawdd da ac ar gael yn rhwydd; gwlad gwaith teg.

Mae gweithwyr ledled Cymru yn haeddu cael eu talu'n deg am y gwaith maen nhw'n ei wneud, a chredwn y dylid talu o leiaf y cyflog byw go-iawn o £9.50 yr awr i bob gweithiwr sy'n darparu gwasanaeth cyhoeddus. Rhaid i dlodi mewn gwaith fod yn rhywbeth sy'n perthyn i'r gorffennol. Rhaid i weithwyr gael cynnig telerau ac amodau teg a chyflogaeth o ansawdd da.

Ni ddylid gadael unrhyw blentyn ar ôl. Mae bron i un o bob tri phlentyn yng Nghymru yn byw mewn tlodi cymharol o ran incwm - ffigur sy'n debygol o waethygu o ganlyniad i ddiwygio'r system les a'r pandemig. Rhaid i bob plentyn yng Nghymru gael mynediad at addysg safonol, wedi'i chyflwyno trwy ysgolion a ariennir yn briodol, gyda darpariaethau ar waith i roi cymorth i blant sy'n wynebu rhwystrau rhag cymryd rhan mewn addysg.

Rhaid adfer gwasanaethau cymunedol. Mae cyni wedi amddifadu Cymru o lyfrgelloedd; bu cwtogi ar y cyllido ar gyfer gwasanaethau ieuenctid; mae cyfleusterau cyhoeddus wedi diflannu. Dim ond ychydig enghreifftiau yw'r rhain o'r hyn yr ydym wedi'i golli yn sgil cyni, a bydd y gost o ran iechyd a llesiant ein cymunedau'n cael ei deimlo am flynyddoedd i ddod. Mae angen buddsoddi yn ein gwasanaethau cymunedol, a rhaid blaenoriaethu hyn.

Mae angen rhaglen tai cymdeithasol uchelgeisiol ar Gymru. Rhaid galluogi cynghorau i adeiladu digon o dai cymdeithasol i ddiwallu'r angen, ac i sicrhau bod y tai cymdeithasol sydd ar gael ar hyn o bryd o safon dda. Mae tai cymdeithasol o'r radd flaenaf yn sylfaen gref i bopeth arall - addysg, trafnidiaeth, cyflogaeth a'r economi.

Ychydig enghreifftiau yn unig yw'r rhain o sut rydym yn mynd ati i sicrhau 'adferiad ar sail cydraddoldeb' sy'n gadael neb ar ôl ac yn sicrhau cydraddoldeb i bawb.

